Digitized by Google

# RHODD MAM
# I'W PHLENTYN;

YN CYNNWYS

## Y CATECISM CYNTAF

I

## BLANT BYCHAIN;

WEDI

*Ei sylfaenu ar yr Ysgrythyrau.*

ARGRAFFIAD NEWYDD.

---

GAN J. PARRY.

---

CAERLLEON:
ARGRAFFWYD AC AR WERTH GAN
J. PARRY.

Digitized by Google

MUSEUM BRITANNICUM
B L
Google

Y

## *CATECISM CYNTAF, &c.*

### DOSPARTH I.

GOF. Pwy a'ch gwnaeth chwi?
ATTEB. Duw.
G. Beth yw Duw?
A. Yspryd.
G. Pa sawl Duw sydd?
A. Un.
G. A ydyw Duw yn dragywyddol?
A. Ydyw; heb ddechreu na diwedd.
G. Ymha le y mae Duw?
A. Yn y nefoedd.
G. A ydyw efe yn un lle arall?
A. Ydyw; yn mhob man.
G. A ydyw Duw yn gwybod pob peth?
A. Ydyw.
G. A all Duw wneud y peth a fyno?
A. Gall.



Digitized by Google

A ydyw Duw yn gyfiawn?
Ydyw; yn gyfiawn a sanctaidd.
A ydyw Duw yn ddigyfnewid?
Ydyw, yr un fath bob amser.
Ai Duw biau bob peth?
Ie, yn y nefoedd a'r ddaear.
A ydyw Duw yn dda?
Ydyw; da yw Duw i bawb.

DOSPARTH II.

Ai Duw greodd bob peth?
Ië.
Beth ydyw creu?
Gwneud peth o ddim.
Ai o ddim y gwnaeth Duw bob peth?
ë.
A all neb arall wneud peth o ddim?
Na all

G. O ba beth ddaear?
A. O ddim.
G. O ba beth y
A. O bridd y dd
G. Mewn pa gwnaeth efe
A. Mewn chwe di
G. Pa beth a wna fed dydd?
A. Gorphwys arno
G. A ddylem ninn un modd?
A. Dylem.

DOSPART

G. Pwy oedd y dyn
A. Adda.
G. Pwy oedd y wra
A. Efa.
G. Pa sawl rhan syd
A. Dwy ran.

G. O ba beth y gwnaeth Duw y ddaear?
A. O ddim.
G. O ba beth y gwnaeth efe ddyn?
A. O bridd y ddaear.
G. Mewn pa faint o amser y gwnaeth efe bob peth?
A. Mewn chwe diwrnod.
G. Pa beth a wnaeth Duw y seithfed dydd?
A. Gorphwys arno a'i sancteiddio ef.
G. A ddylem ninnau wneuthur yr un modd?
A. Dylem.

### DOSPARTH III.

G. Pwy oedd y dyn cyntaf?
A. Adda.
G. Pwy oedd y wraig gyntaf?
A. Efa.
G. Pa sawl rhan sydd mewn dyn?
A. Dwy ran.



Digitized by Google

G. Pa rai ydynt?
A. Corph ac enaid.
G. O ba beth y gwnaeth efe gorph dyn?
A. O bridd y ddaear.
G. Beth ydyw enaid dyn?
A. Yspryd i fyw byth.
G. A oes eneidiau gan blant?
A. Oes gan bawb.
G. Y'mha le y dodwyd Adda ac Efa wedi eu creu?
A. Y'ngardd Eden.
G. Ai yno y maent etto?
A. Nage.
G. Pwy a'u gyrodd oddiyno?
A. Duw.
G. Am ba beth y gyrodd Duw hwynt oddiyno?
A. Am bechu i'w erbyn.
G. Beth ydyw pechod?
A. Anghyfraith.
G. Pwy roes gyfraith i ddyn?
A. Duw.

Digitized by Google

G. Beth yw'r drwg mwyaf?
A. Pechod.
G. Pwy bechodd gyntaf?
A. Adda ac Efa.
G. Pwy bechodd wed'yn?
A. Pawb.

---

### DOSPARTH IV.

G. Pa sawl math o blant y sydd?
A. Dau fath.
G. Pa rai ydyw 'r ddau fath?
A. Plant da, a plant drwg.
G. Pa fath blant sy yn cymmeryd enw Duw yn ofer?
A. Plant drwg.
G. Pwy sy yn anufudd i'w tad a'u mam?
A. Plant drwg.
G. Pwy sy yn dyweud celwydd, ac yn tyngu?
A. Plant drwg.


Digitized by Google

G. Pwy sydd yn chwareu ar y sabboth ?
A. Plant drwg.
G. A raid i bawb farw ?
A. Rhaid.
G. I ba le yr a plant drwg ar ol marw ?
A. I uffern.
G. Pa fath le ydyw uffern ?
A. Llyn yn llosgi o dan a brwmstan.
G. Pwy ddichon waredu plant rhag myned yno ?
A. Iesu Grist.
G. Pa fath ydyw plant da ?
A. Rhai yn ofni Duw, ac yn cilio oddi wrth ddrwg.
G. Pwy sy'n hoff o'u llyfr ?
A. Plant da.
G. Pwy sy'n ufudd i'w rhieni ?
A. Plant da.
G. A ddylech chwi oll fod yn blant da ?
A. Dylem.

Digitized by Google

G. I ba le yr â plant da wedi marw?

A. I'r nefoedd.

G. Pa fath le yw'r nefoedd?

A. Lle gogoneddus a hyfryd.

G. Pwy fydd gyd â ni yno?

A. Iesu Grist, yr angylion, a'r saint.

G. A fydd pechod yno?

A. Na fydd, na phechod na phoen byth.

---

DOSPARTH V.

G. Pwy a anfonodd Duw i achub pechaduriaid?

A. Iesu Grist.

G. Pwy ydyw Iesu Grist?

A. Duw a dyn.

G. Pa berthynas ydyw Iesu Grist i Dduw?

A. Mae efe yn Fab Duw.

G. Pa berthynas ydyw efe i ni?

A. Brawd a chyfaill goreu.

Digitized by Google

G. Beth a wnaeth Iesu Grist yn y byd?
A. Byw a marw drosom.
G, Ymha le y ganed Iesu Grist?
A. Yn Bethlehem.
G. Pwy oedd ei fam ef?
A. Mair.
G. Ymha le y bu Iesu Grist farw?
A. Ar Galfaria.
G. A gladdwyd ef?
A. Do; mewn bedd.
G. Ai yn y bedd y mae efe etto?
A. Nage; efe a gyfododd,
G. Ymha le y mae efe yn awr?
A. Yn y nefoedd.
G. Beth yw cyflog pechod?
A. Marwolaeth.
G. Ydyw Duw yn maddeu pechod?
A. Ydyw.
G. Er mwyn pwy y mae efe yn maddeu?
A. Er mwyn Iesu Grist.

Digitized by Google

G. A oes modd i ni fod yn happus heb gael maddeu ein pechod?

A. Nac oes.

G. Y'mha le mae Duw yn maddeu pechod?

A. Yn y byd hwn.

---

DOSPARTH VI.

G. I ba beth y'ch gwnaed chwi?

A. I wasanaethu Duw.

G. A ddylai plant wasanaethu Duw?

A. Dylai pawb.

G. Pwy sy'n rhoddi pob peth i ni?

A. Duw sy'n rhoddi pob peth i bawb

G. Oni ddylem ni ddiolch i Dduw am bob peth?

A. Dylem.

G. A ddylem ni weddio ar Dduw?

A. Dylem.

G. Am ba beth y dylem weddio arno?

A. Am faddeuant o'n pechodau.

Digitized by Google

G. A ddylem ni weddio am ddim arall?

A. Dylem weddio am ras i'n gwneud yn blant da, ac am bob peth fo arnom eisiau.

G. A ydyw yn hawdd gan Dduw roi i ni y peth a ofynom?

A. Ydyw i bawb, ac heb ddannod.

G. Yn enw pwy y dylem weddio?

A. Yn enw Iesu Grist.

G. Pwy sy'n gweddio?

A. Pob duwiol a weddia.

---

### DOSPARTH. VII.

G. A fydd dydd barn?

A. Bydd.

G. Pa bryd y bydd dydd barn?

A. Yn niwedd y byd.

G. Pwy fydd y barnwr?

A. Iesu Grist.

G. Pwy gaiff eu barnu?

A. Pawb.

Digitized by Google

G. A gawn ni ein barnu ?
A. Cawn.
G. Yn ol pa beth y bernir ni?
A. Yn ol ein gweithredoedd.
G. Wrth ba reol y bernir ni ?
A. Wrth reol Gair Duw.
G. Y'mha le y mae gair Duw ?
A. Yn y Bibl.
G. A ddylem ni ddysgu darllen y Bibl?
A. Dylem.
G. Beth ydyw edifeirwch ?
A. Cyfnewidiad y meddwl.
G. Pa fath feddwl sy genym wrth natur ?
A. Meddwl drwg.
G. Peth ydyw ffydd ?
A. Credu.
G. Beth sydd i ni gredu fel yr achuber ni?
A. Credu yn Iesu Grist.
G A ddylem ni gredu yn Iesu Grist ?
A. Dylem bawb.

Digitized by Google

### DOSPARTH VIII.

*Am y Gyfraith.*

G. Pa sawl gorchymyn sydd yn y gyfraith?

A. Deg.

G. Beth yw'r gorchymyn cyntaf?

A. Na fydded i ti dduwiau ereill onid myfi.

G. Beth yw'r ail orchymyn?

A. Na wna i ti dy hun ddelw gerfiedig, na llun dim i'w addoli.

G. Beth yw'r trydydd gorchymyn?

A. Na chymmer enw'r Arglwydd dy Dduw yn ofer.

G. Beth yw 'r pedwerydd gorchymyn?

A. Cofia gadw'n sanctaidd y dydd Sabboth.

G. Beth yw'r pummed gorchymyn?

A. Anrhydedda dy dad a'th fam.

Digitized by Google

A. Beth yw'r chweched gorchymyn?
G. Na ladd.
G. Beth yw'r seithfed gorchymyn?
A. Na wna odineb.
G. Beth yw'r wythfed gorchymyn?
A. Na ladrata.
G. Beth yw'r nawfed gorchymyn?
A. Na ddwg gam dystiolaeth yn erbyn dy gymmydog.
G. Beth yw'r degfed gorchymyn?
A. Na chwennych ddim sy'n eiddo dy gymmydog.
G. Beth ydyw ein dyledswydd tuag at Dduw?
A. Ei garu ac ymddiried ynddo.
G. Beth yw ein dyledswydd tuag at ein tad a'n mam?
A. Eu parchu ac ufuddhau iddynt.
G. Beth yw ein dyledswydd tuag at ein cymmydog?
A. Ei garu fel ni ein hunain.

## CATECISM O ENWAU.

G. Pwy oedd Adda?
A. Y dyn cyntaf, a'n tad ni oll.
G. Pwy oedd Efa?
A. Mam pob dyn byw.
G. Pwy oedd y merthyr cyntaf?
A. Abel.
G. Pwy laddodd ei frawd?
A. Cain.
G. Pwy fu fyw hwyaf?
A. Methusalem.
G. Pwy gadwyd yn yr Arch pan foddwyd y byd?
A. Noa, a'i wraig, ei dri mab, Sem, Cam, Iapheth, a'u tair gwragedd.
G. Pwy oedd y dyn ffyddlonaf?
A. Abraham.

Digitized by Google

G. Pwy a ymdrechodd â Duw?
A. Iacob.
G. Beth fu ei enw ef wedi hyny?
A. Israel.
G. Pa sawl mab oedd i Iacob?
A. Deuddeg.
G. Pwy oedd y dyn llarieiddiaf?
A. Moses.
G. Pwy oedd y dyn calon-galetaf?
A. Pharaoh.
G. Pwy oedd wr wrth fodd calon Duw?
A. Dafydd.
G. Pwy oedd y dyn doethaf?
A. Solomon.
G. Pwy oedd y dyn goreu?
A. Iesu Grist.
G. Pwy werthodd Grist?
A. Iudas.
G. Am ba beth y gwerthodd efe ef?
A. Am arian.
G. Beth a ddaeth o hono ef ar ol hyny?

Digitized by Google

A. Efe a aeth ac a ymgrogodd.
G. Pwy wadodd Grist?
A. Pedr.
G. Beth ddaeth o hono ef ar ol hyny?
A. Efe a wylodd yn chwerw dost.
G. Pwy a farnodd Grist?
A. Pontius Pilat.
G. Pwy a groeshoeliodd Grist?
A. Yr Iuddewon.
G. Pwy oedd y dysgybl anwyl?
A. Ioan.
G. O bwy y bwriodd Crist allan gythreuliaid?
A. O Mair Magdalen.
G. Pwy a adawodd Grist o gariad at y byd?
A. Demas.

---

G. Pwy 'sgrifenodd yr ysgrythyrau?
A. Dynion sanctaidd Duw megys y cynhyrfwyd hwynt gan yr Yspryd Glân.

Digitized by Google

G. *Pa* sawl rhan ydyw'r Bibl?
A. Dwy ran.
G. Pa rai ydynt?
A. Yr Hen Destament, a'r Testament Newydd.
G. Pwy gasglodd lyfrau yr Hen Destament yn un llyfr?
A. Ezra yr offeiriad.
G. Pwy a orphenodd y Testament Newydd?
A. Ioan y difeinydd.

G. Beth ydyw bedydd?
A. Golchi â dwfr yn enw'r Tad, a'r Mab, a'r Yspryd Glân.
G. Beth y mae hyny yn arwyddo?
A. Bod eisiau ein golchi oddiwrth bechod.
G. Beth ydyw swpper yr Arglwydd?
A. Bwyta bara, ac yfed gwin, yn goffadwriaeth o farwolaeth Crist.

Digitized by Google

G. Beth y mae'r **bara yn arwyddo?**
A. Corph Crist.
G. Beth y mae'r **gwin yn arwyddo?**
A. Gwaed Crist.

G. Pwy ydyw'r angylion?
A. Ysprydion da.
G. Pwy ydyw y cythreuliaid?
A. Angylion drwg.
G. Pwy ydyw y diafol?
A. Penaeth y cythreuliaid.
G. Beth yw gorchwyl angylion da?
A. Addoli Duw, a gweini i'r saint.
G. Beth yw gwaith y cythreuliaid?
A. Pechu, a themtio dynion.
G. Beth ddaw o honynt yn y diwedd?
A. Fe'u bwrir oll i uffern.

---

G. Pa bryd y daeth Crist i'r byd?
A. Ynghyflawnder yr amser.
G. Pwy a'i bedyddiodd ef?
A. Ioan Fedyddiwr.

Digitized by Google

G. Beth oedd ei oed ef pan y'i bedyddiwyd?
A. Deng mlwydd ar hugain,
G. Pa sawl disgybl oedd ganddo?
A. Deuddeg.
G. Pa waith roes Iesu Grist iddynt?
A. Pregethu yr efengyl.
G. Beth ydyw yr efengyl?
A. Newydd da am ddyfodiad Iesu Grist i'r byd i gadw pechaduriaid.
G. Ai pechaduriaid ydym ni?
A. Ie.
G. A glywsom ni bregethu yr efengyl?
A. Do.
G. Beth ddylem ni wneud â'r efengyl?
A. Ei chredu a'i derbyn.
G. Beth yw effaith credu yr efengyl?
A. Llawenydd mawr, a chariad at Grist.
G. Beth yw ffrwyth cariad at Grist?

Digitized by Google

A. Cadw ei orchymynion.
G. Pa rai ydynt?
A. Yn fyr:
1. Na foed it' dduwiau ond myfi.
2. Un eilun nac addola di.
3. Nac ofer gymmer enw Duw.
4. Na lygra'r sabboth, sanctaidd yw.
5. Rho i'th rieni barch a bri.
6. Llofruddiaeth gwaedlyd gochel di
7. Ymgadw rhag yr aflan waith.
8. A gwylia rhag lladrata chwaith.
9. Gochel fod yn ddyn celwyddog.
10. Na chwennych eiddo dy gymmydog.

*Eu Swm Hwynt.*

A'th enaid oll câr Dduw, O ddyn,
A phob cymmydog fel dy hun.

*Rhëol Euraid.*

Boed dy ymddygiad at bob dyn
Fel y dymunit it' dy hun,
Na wna, na ddywed wrth un dyn,
Y peth na chym'rit ti dy hun.

Digitized by Google

## CYNGHORION TAD I W BLANT.

GWRANDEWCH, blant, addysg tad; ac erglywch i ddysgu deall. Canys yr ydwyf fi yn rhoddi i chwi addysg dda; na wrthodwch fy nghyfraith. Canys yr oeddwn yn fab i'm tad, yn dyner ac yn anwyl yngolwg fy mam. Efe a'm dysgai, ac a ddywedai wrthyf, dalied dy galon fy ngeiriau; cadw fy ngorchymynion, a bydd fyw. Cais ddoethineb, cais ddeall: penaf peth yw doethineb. Dechreuad doethineb yw ofn yr Arglwydd, deall da sy gan y rhai a'i hofnant ef. Ofn yr Arglwydd ydyw doethineb, a chilio oddiwrth ddrwg sydd ddeall. Cais ddoethineb, ac a'th holl gyfoeth cais ddeall. Hi a'th ddwg di i anrhydedd os cofleidi hi. Gwrando, fy mab, a derbyn fy ngeiriau; a blynyddoedd dy fywyd a amlheir. Na ddos i lwybr yr annuwiolion, ac na rodia ar hyd

Digitized by Google

ffordd y drygionus. Gochel hi, na ddos ar hyd-ddi; cilia oddiwrthi hi a dos heibio. Canys ffordd y drygionus sydd fel y tywyllwch, ni wyddant wrth ba beth y tramgwyddant. Ond llwybr y cyfiawn sydd fel y goleuni, yr hwn a lewyrcha fwy fwy hyd ganol dydd.

Cofia yn awr dy Greawdwr yn nyddiau dy ieuengctid, cyn dyfod y dyddiau blin, a nesâu o'r blynyddoedd yn y rhai y dywedi, Nid oes i mi ddim dyddanwch ynddynt.

### YMADRODDION DETHOLEDIG.

MAE plant yn meirw; am hyny dylai plant fod yn barod i farw.

Mae enaid gan blentyn; am hyny y rhieni na ofalant am eneidiau eu plant ydynt yn esgeuluso eu rhan anfarwol hwynt.

Digitized by Google

Nid oes neb yn medru heb eu ysgu; am hyny fe ddylid dysgu r hyn sy dda i bawb.

Nid yw yn gywilydd i neb fod n dysgu; ond y mae yn gywilydd od heb fedru.

Y cam cyntaf o wybodaeth ydyw wybod ein bod heb wybod; a'r cam laf ydyw gwybod fod ychwaneg i'w ybod nag allwn wybod byth.

---

## *Y CREDO.*

REDAF yn Nuw Dad holl-gyfoeth-g, creawdwr nef a daear.

Ac yn Iesu Grist ei un Mab ef, in Harglwydd ni; yr hwn a gaed wy yr Yspryd Glân; a aned o 'air Forwyn; a ddyoddefodd dan Pontius Pilatus; a groeshoeliwyd, fu farw, ac a gladdwyd; a ddis-ynodd i uffern; y trydydd dydd cyfododd o feirw; a esgynodd i'r

Digitized by Google

nefoedd : ac y mae yn eistedd ar ddeheulaw Duw Dad holl-gyfoethog ; oddi yno y daw i farnu byw a meirw.

Credaf yn yr Yspryd Glân ; yr eglwys lân gatholig; cymun y saint; maddeuant pechodau; adgyfodiad y cnawd, a'r bywyd tragywyddol.—*Amen.*

---

## GWEDDI YR ARGLWYDD,

EIN Tad, yr hwn wyt yn y nefoedd, sancteiddier dy enw ; deued dy deyrnas, bydded dy ewyllys ar y ddaear, megys y mae yn y nefoedd; dyro i ni heddyw ein bara beunyddiol ; a maddeu i ni ein dyledion, fel y maddeuwn ni i'n dyledwŷr ; ac nac arwain ni i brofedigaeth ; eithr gwared ni rhag drwg : canys eiddo ti yw'r deyrnas, a'r gallu, a'r gogoniant, yn oes oesoedd.—*Amen.*

Digitized by Google

## *GWEDDI YN Y BORE.*

O Arglwydd Dduw trugarog a gras-
lawn: da ydwyt, a daionus a fuost
i mi y nos a aeth heibio, a phob
amser. Caniata faddeu fy holl
bechodau i'th erbyn, a dyro ras i mi
i'th garu, a'th wasanaethu y dydd
hwn, modd y delwyf yn y diwedd
i'th deyrnas nefol, trwy Iesu Grist
ein Harglwydd.—*Amen.*

## *UN ARALL.*

O Arglwydd mawr, cadw ac achub
fi y dydd hwn, ynghyd a phob un
o'm teulu, rhag pob pechod; rho i
mi nerth a doethineb i ogoneddu dy
enw y'mhob amgylchiad. O maddeu
fy holl bechod, nertha fi i orch-
fygu pob gelyn trwy waed yr Oen.
Edrych yn raslawn ar bawb sy mewn
cyfyngder, a derbyn fy niolch am dy
holl ddaioni yn gymmeradwy yn
Iesu Grist.—*Amen.*

Digitized by Google

## *GWEDDI Y NOS.*

O Arglwydd, mawr fu dy drugaredd tu ag ataf y dydd a aeth heibio, a phob amser; cynnorthwya fi i roddi fy hunan i'th gadwraeth y nos hon. Derbyn fi i'th ofal tadol, a gwylia o amgylch fy ngorweddfa, fel y byddwyf ddiogel rhag pob perygl, trwy Iesu Grist ein Prynwr a'n Gwaredwr.—*Amen.*

## *UN ARALL.*

O Dduw trugarog, maddeu i mi fy holl ynfydrwydd y dydd hwn a aeth heibio; bydd yn Geidwad ac yn Noddfa i mi y nos hon. O Arglwydd, amgylcha fi a'm teulu, a'n holl eiddo, â'th ofal tadol a'th gadarn allu; bydd yn gymhorth hawdd dy gael i bawb sydd mewn cyfyngder; a derbyn fi yn gymmeradwy, gan fadden fy holl anwiredd, yn haeddiant Iesu Grist ein Harglwydd.—*Amen.*

Digitized by Google
BGL

### GRAS CYN BWYD.

O Arglwydd, bendithia fy mwyd i'm cadw yn fyw i'th wasanaethu di, trwy Iesu Grist.—*Amen.*

### UN ARALL.

O Arglwydd, sancteiddia y drugaredd hon, ynghyd a'th holl ddaioni, er ein lles; a ninnau i'th ogoneddu di, trwy Iesu Grist ein Harglwydd. —*Amen.*

### GRAS AR OL BWYD.

Diolch i ti, O Arglwydd, ein Tad nefol, am fy mwyd a phob trugaredd arall a wyt ti yn ei gyfrannu i mi; derbyn fy niolch trwy Iesu Grist.—*Amen.*

### UN ARALL.

Mawr ddiolchwn i ti, O Arglwydd, am ein hymborth, ac am ei rinweddu ef i'n digoni: rho ras i'w dreulio yn dy wasanaeth, trwy Iesu Grist.-*Amen.*

---

*Argraffwyd gan J. Parry, Caerlleon.*

Digitized by Google

Digitized by Google